# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 6

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal*

### 92 Rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol a darpar fabwysiadwyr

(1) Caiff rheoliadau o dan adran 87, er enghraifft, wneud darpariaeth—

(a) ynglŷn â llesiant plant a leolir gyda rhieni maeth awdurdod lleol neu ddarpar fabwysiadwyr;

(b) ynghylch y trefniadau sydd i'w gwneud gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag iechyd ac addysg plant o'r fath;

(c) ynghylch y cofnodion sydd i'w cadw gan awdurdodau lleol;

(d) i sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod y rhiant maeth awdurdod lleol neu'r darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef—

(i) o'r un argyhoeddiad crefyddol â'r plentyn, neu

(ii) yn ymgymryd â magu'r plentyn yn unol â'r argyhoeddiad crefyddol hwnnw;

(e) i sicrhau y bydd y plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth awdurdod lleol neu ddarpar fabwysiadwyr, a'r mangreoedd lle y maent wedi eu lletya, yn cael eu goruchwylio a'u harolygu gan awdurdod lleol ac y bydd y plant yn cael eu symud o'r mangreoedd hynny os yw'n ymddangos bod hynny'n angenrheidiol i'w llesiant.

(2) Yn yr adran hon ystyr "darpar fabwysiadydd" yw person y lleolir y plentyn gydag ef o dan adran 81(11).